Anrhydeddus Gymdeithas

Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751

The Honourable Society

Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU / HRH THE PRINCE OF WALES

Unconfirmed Minutes of the Annual General Meeting, held at the Medical Society of London, 11 Chandos Street, Cavendish Square, London W1G 9EB, at 6.00 p.m. on Wednesday 30 May 2018, with the President, Professor Prys Morgan in the chair and with twenty-seven members in attendance.

1. **Apologies for absence** were received from eleven members.

2. **Minutes of the Annual General meeting held on 23 May 2017**
These had been circulated and, on the proposal of Elinor Talfan Delaney, seconded by Stuart Cole, were accepted by the meeting.

3. **The Trustees' Annual Report and Accounts for 2017**
The President presented the Annual Report and Accounts, which had been circulated.

Members present noted that the Trustees' Annual Report and Accounts document:

- had been produced so as to ensure compliance with the reporting requirements of the Charity Commission;
- included reports on the Society's Governance and Organisation, on its Charitable Objects and on the activities carried out in furtherance of those Objects: the Programme of lectures and discussions; the award of the Society's Medal (to the President); publications(notably the *Transactions*) and on-line information (the website and the decision to make articles from the *Transactions* available online); the encouragement of study and research (the support given to the Dictionary of Welsh Biography and the Morrisiaid Môn project); collaboration with other organisations, both in London and in Wales); and
- in accordance with the requirements of the Charity Commission, set out how the Society's activities delivered public benefit (which was a key criterion for charitable status) and included a public benefit statement.

Members noted further that the Accounts and the associated financial report showed a healthy financial position.

On the proposal of Ceridwen Roberts, seconded by Thomas Charles-Edwards, the Trustees' Annual Report and Accounts were accepted by the meeting.

4. **Elections**

4.1. ***President***
By unanimous acclaim, and on the proposal of Lynn Williams, seconded by Elinor Talfan Delaney, Professor Prys Morgan was re-elected President of the Society for the forthcoming year.

4.2. Vice-Presidents

The meeting noted with sadness the recent deaths of two of the Society's Vice-Presidents, Professor J Gwynn Williams CBE MA DLitt and The Rt Hon The Lord Crickhowell MA.

On the proposal of Gwenda Sippings, seconded by Ceridwen Roberts, the meeting re-elected the current Vice-Presidents.

4.3. Council Members

On the proposal of Lynn Williams, seconded by Mathew Kidwell, Mrs Elinor Talfan Delaney, Mr Robert John, Ms Ceridwen Roberts and Ms Rhian Medi Roberts were re-elected to serve on the Council for a further three years, 2018-2021.

The President reported that, further to the invitation which had been issued to members to stand for election to the Council, no nominations had been received.

The President reported further, and with great regret, that three long-serving members of the Council (Mrs Anne Arnold, Mr Arwyn Lloyd Hughes, who had served on a number of Committees and who represented the Society on the Advisory Committee for the Dictionary of Welsh Biography, and Mr Peter Jeffreys, who had provided distinguished service as Honorary Secretary of the Society) had decided not to seek re-election to the Council. The President thanked them all for their distinguished service to the Society.

On the proposal of Ceridwen Roberts, seconded by Stuart Cole, Mr Rhys David, previously a co-opted member of the Council, was appointed to membership of the Council for the three-year period, 2018 to 2021.

5. Independent Examiner

On the proposal of Thomas Charles-Edwards, seconded by Peter Jeffreys, Professor Richard Lewis of Lewis & Co was appointed as the independent examiner of the accounts for the forthcoming year.

6. General Data Protection Regulation

The President made reference to the General Data Protection Regulation (GDPR) which had come into force on 25 May, thanked those members present who had confirmed their consent to the Society's continuing to contact them and urged any members who had not already done so to complete the form which had been circulated for this purpose.

7. The 275th Anniversary of the Society's Establishment

The President reminded members that the Society, which had been founded in 1751, would be celebrating the 275th anniversary of its establishment during 2026.

8. Thanks

The President then thanked all those who had by voluntary effort aided the work of the Society during the year, in particular the Officers.

Dr Lynn Williams
Honorary Secretary

Anrhydeddus Gymdeithas

Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751

The Honourable Society

Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU / HRH THE PRINCE OF WALES

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Heb eu Cadarnhau, a gynhaliwyd yng Nghymdeithas Feddygol Llundain, 11 Chandos Street, Cavendish Square, Llundain W1G 9EB, am 6.00yh ar nos Fercher 30 Mai 2018, gyda'r Llywydd, Yr Athro Prys Morgan yn y gadair a saith aelod ar hugain yn bresennol.

1. Cafwydd **Ymddiheuriadau** gan un aelod ar ddeg.

2. **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2017**
Roedd y rhain wedi eu cylchredeg ac, ar gynnig Elinor Talfan Delaney, a eiliwyd gan Stuart Cole, fe'u derbyniwyd gan y cyfarfod.

3. **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2017**
Derbyniodd y Llywydd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a oedd wedi eu cylchredeg.

Nodwyd gan yr aelodau a oedd yn bresennol bod y ddogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr:

- wedi ei chynhyrchu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Comisiwn Elusennau;
- wedi cynnwys adroddiadau ar Lywodraethu a Chyfundrefn y Gymdeithas, ar ei Amcanion Elusennol ac ar y gweithgareddau a gynhelir er mwyn hyrwyddo'r Amcanion hynny: y Rhaglen o ddarlithoedd a thrafodaethau; dyfarnu Medal y Gymdeithas (i'r Llywydd); cyhoeddiadau (y *Trafodion* yn benodol*)* a gwybodaeth ar-lein (y wefan a'r penderfyniad i roi erthyglau o'r *Trafodion* ar-lein); annog astudiaeth ac ymchwil (y gefnogaeth a roddwyd i'r Bywgraffiadur Cymreig a phrosiect Morrisiaid Môn); cydweithredu gyda sefydliadau eraill (yn Llundain ac yng Nghymru); ac
- yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, gosod allan sut mae gweithgareddau'r Gymdeithas yn rhoi budd i'r cyhoedd (a oedd yn faen prawf allweddol i gael statws elusen) ac a oedd yn cynnwys datganiad budd cyhoeddus.

Nodwyd gan yr aelodau hefyd bod y Cyfrifon a'r adroddiad ariannol cysylltiol yn dangos sefyllfa ariannol iach.

Yn dilyn cynnig gan Ceridwen Roberts, a eiliwyd gan Thomas Charles-Edwards, derbyniodd y cyfarfod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr.

4. **Etholiadau**

4.1. ***Y Llywydd***
Yn unfrydol, ac yn dilyn cynnig gan Lynn Williams, a eiliwyd gan Elinor Talfan Delaney, ail-etholwyd Yr Athro Prys Morgan yn Llywydd y Gymdeithas am y flwyddyn i ddod.

4.2. Is-Lywyddion

Nodwyd, â thristwch, farwolaeth diweddar dau o Is-Lywyddion y Gymdeithas, Yr Athro J Gwynn Williams CBE MA DLitt a'r Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Crughywel MA.

Yn dilyn cynnig Gwenda Sippings, a eiliwyd gan Ceridwen Roberts, ail-etholwyd yr Is-Lywyddion presennol.

4.3. Aelodau'r Cyngor

Yn dilyn cynnig Lynn Williams, a eiliwyd gan Mathew Kidwell, ail-etholwyd Mrs Elinor Talfan Delaney, Mr Robert John, Ms Ceridwen Roberts a Ms Rhian Medi Roberts i'r Cyngor am dair blynedd ychwanegol, 2018-2021.

Adroddodd y Llywydd, yn dilyn gwahoddiad i'r aelodau i gael eu hethol i wasanaethu ar y Cygnor, na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau.

Adroddodd y Llywydd ymhellach, a chyda gresyn, bod tri aelod sydd wedi rhoi gwasanaeth hirfaith i'r Cyngor (Mrs Anne Arnold, Mr Arwyn Lloyd Hughes, sydd wedi bod ar nifer o Bwyllgorau ac a gynrychiolodd y Gymdeithas ar Bwyllgor Cynghori'r Bywgraffiadur Cymreig, a Mr Peter Jeffreys, oedd wedi rhoi gwasanaeth neilltuol fel Ysgrifennydd Mygedol y Gymdeithas) wedi penderfynu peidio â chael eu hail-ethol i'r Cyngor. Diolchodd y Llywydd iddynt am eu gwasanaeth nodedig i'r Gymdeithas.

Yn dilyn cynnig Ceridwen Roberts, a eiliwyd gan Stuart Cole, apwyntiwyd Mr Rhys David, a oedd yn aelod a gyfetholwyd i'r Cyngor, yn aelod llawn o'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd, 2018 to 2021.

5. Archwiliwr Annibynnol

Yn dilyn cynnig Thomas Charles-Edwards, a eiliwyd gan Peter Jeffreys, apwyntiwyd Yr Athro Richard Lewis o Lewis & Co yn archwiliwr annibynnol y cyfrifon am y flwyddyn i ddod.

6. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Cyfeiriodd y Llywydd at y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (*General Data Protection Regulation (GDPR*)) a ddaeth i rym ar 25 Mai, gan ddiolch i'r aelodau oedd yn bresennol a oedd wedi cadarnhau bod y Gymdeithas yn gallu parhau i gysylltu â hwy ac anogodd unrhyw aelodau nad oedd wedi gwneud hynny eisoes i gwblhau'r ffurflen a gylchredwyd i'r diben hwn.

7. Nodi 275 blynedd ers Sefydlu'r Gymdeithas

Atgoffodd y Llywydd yr aelodau y bydd y Gymdeithas, a sefydlwyd yn 1751, yn dathlu 275 blynedd o fodolaeth yn ystod 2026.

8. Diolchiadau

Diolchodd y Llywydd i bawb a oedd, yn wirfoddol, wedi cynorthwyo gwaith y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y Swyddogion.

Dr Lynn Williams
Ysgrifennydd Mygedol